Cyf. LIV | Ebrill 1954 | Rhif 4

YR YMOFYNNYDD

Cylchgrawn Misol Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

CYNNWYS

Gweinidog Ffyddlon yn yr Arglwydd
Y Parchedig Lewis Williams
Y Clip ar y Clo
Hunangofiant Y Parch. Lewis Williams
Priodasau
Marwgofion
Gohebiaeth
Newyddion yr Enwad
Arholiad yr Ysgol Sul 1954



YR YMOFYNNYDD

Pris 6ch. y mis; drwy y Post, 7s. oc. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—

Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A., Penrallt, 2, Tudor Terrace, Aberdâr.

Nodion a Marwgofion i gyrraedd y Golygydd erbyn y 15fed o'r mis

Pwyllgor Ymgynghori—Prifathro J. D. Jones, B.A., B.D.; Parchn. S. E. Bowen; E. G. Evans, B.A.; J. Islan Jones, M.A.; Simon Jones, B.A.; A. J. Martin, B.A.; Islwyn Pritchard, B.A.; J. Marles Thomas, M.A.; Lewis Williams; T. O. Williams, M.A.; Mr. W. S. Jones, M.A., M.Sc., a Mr. D. Jones.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwyr—

J. D. Lewis a'i Feibion, Swyddfa'r "Ymofynnydd", Llandysul

A GOLDEN TREASURY OF THE BIBLE (and Apocrypha).
Selected and edited by Mortimer Rowe, B.A., D.D. The best of the Bible and Apocrypha, in attractive and readable form. 9/6, by post 10/3; leather with gilt edges, 18/-, by post 18/9.

SHALL WE FOLLOW KARL BARTH.
By Sidney Spencer, B.A. 1/6, by post 1/8.

THE STORY AND SIGNIFICANCE OF THE UNITARIAN MOVEMENT.
By W. G. Tarrant, B.A. 1/6, by post 1/8.

UNITARIAN FAITH IN UNITARIAN HYMNS.
1/-, by post 1/2.

WE BELIEVE IN series.
Edited by G. Stephens Spinks, M.A., Ph.D., the set of six titles 1/6 by post 1/8.

Send for catalogue and lists of other series—

THE LINDSEY PRESS,
14, Gordon Square, London, W.C.1.

Yr Ymofynnydd

. . Cylchgrawn Misol . .

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygyddd—Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A.

Cyfrol LIV. EBRILL 1954 Rhif 4



Y Diweddar Barch. LEWIS WILLIAMS
1870—1954
Gweinidog Rhydygwin a Chiliau.

"Gweinidog Ffyddlon yn yr Arglwydd."

(Er Cof am y Parch. LEWIS WILLIAMS, Rhydygwin a Chiliau Aeron).

Williams Rhydygwin yn ei fedd ! a phleser calon yw talu teyrnged o barch i goffa yr olaf o'r hen weinidogion—yr hen *frigade* fel y carem ni bobl iau edrych arnynt. Treuliodd drigain mlynedd yn y winllan a chafodd farw yn yr *harnais*. Yr oedd, chwedl Dr. Clifford, yn *eighty four years young*, ond anodd coelio hynny o'i weld—oedran aeddfed i noswylio wedi diwrnod da o waith yng ngwinllan Duw.

Yr oedd wedi byw cyhyd ym mhrydferthwch Dyffryn Aeron fel yr oedd y dyffryn wedi gosod stamp ei dawelwch a'i brydferthwch ei hun arno. Nid oedd aruthredd gwyllt y mynyddoedd ynddo ond yn hytrach dlysni tawel y dyffryn. Ni ddisgwyliech ysbonc na rhuthr ynddo, ond gallasech ddibynnu ar ffyddlondeb tawel a digyffro'r fro. Rywsut 'dwn i ddim beth yw dylanwad bro ar feddwl a chymeriad gŵr. Ydyw ardal bob yn dipyn yn moldio gŵr gan ei wneud i ffitio i'w le ynddi ? Pwy ŵyr ?

Beth bynnag am hyn, ef oedd ein gweinidog hynaf yng Nghymru, ac eto ni ystyriem ef yn hen. Yr oedd mor sionc ei gam ac mor ifanc ei ysbryd. Yr oedd yn dragwyddol ifanc i'r diwedd. Ni châr dyn rywsut deimlo ei fod yn mynd yn hen. Y mae arall yn heneiddio, ond nid dyn ei hunan, ac eto yr wyf yn dechrau meddwl o gofio fy mod yn ei adnabod ers trigain mlynedd mwy neu lai. Cofiaf amdano gyntaf ym mhulpud annwyl Capel-y-Bryn a minnau'n grwtyn ifanc yn gwrando. Yr oedd yn drwsiadus ei wisg, yn hardd ei wedd a melys ei dôn, a chadwodd ei urddas i'r diwedd. Gyda llaw, yr oedd yr hen weinidogion yn talu mwy o sylw na ni i wisg ac urddas gweinidog. Hwyrach fod ein ffordd ddihidio ni yn peri i ni golli parch. O leiaf, yr oedd Williams yn cadw ei hun fel pin mewn papur, ac wedi'r cyfan y mae rhywbeth mewn ymddangosiad.

Ddeuddydd neu dri cyn ei farw gwelais ef ar ei wely cystudd, ac yr oedd byd o wahaniaeth rhwng yr olwg gyntaf a'r olwg olaf arno gydag angau yn ei wedd ac yn ei lais. Yr oedd y llais clir wedi crygu ac ni allodd ddweud nemor ddim wrthyf ond ' y machgen bach i,' gan wasgu fy llaw mewn ffarwel—y ffarwel olaf ! Rhwng y ddwy olwg arno yr oedd yna ysbaid hir, ac ef a minnau wedi bod yn gymdogion am ddeugain mlynedd. Yr oedd gennyf olwg arno er na pherthynem i'r un genhedlaeth. O chlywai air da amdanaf rywdro, nid oedd neb yn falchach na pharotach ei gymeradwyaeth. Gallwn adrodd troeon digri amdanom ein dau ond nid oes angen nac amser na hwyl weithian. Y mae atgofion yn tyneru hiraeth a lleddfu poen o ganu'n iach.

Credaf fod y frawddeg—"Gweinidog ffyddlon i'r Arglwydd" yn ei ddarlunio i'r dim, ac nid oes eisiau tystiolaeth well ar neb. Dywedid na roddid tystiolaeth i Eifftiwr ar ddydd ei angladd onid oedd yn ei theilyngu ym marn ei gydnabod. Credaf y gallaf ddweud yn ddibetrus heddiw y teilyngai Williams y dystiolaeth hon,—"Gweinidog Ffyddlon i'r Arglwydd".

A dweud y gwir, ni chredaf y gallwn i ei ddychmygu yn ddim ond pregethwr. Y mae rhai ohonom wedi mynd i'r weinidogaeth heb deimlo ein bod wedi cael galwad bendant, ond teimlai'r hen weinidogion eu bod wedi'u 'galw.' Credai Williams mai gwaith mawr ei fywyd oedd pregethu'r Efengyl a phregethai am ddim yn hytrach na bod heb bregethu. Yr oedd yn fwy o Gristion na mi yn hynyna. Carai bregethu ac yr oedd yn barod bob amser. Nid oedd raid byth erfyn arno. Pregethu'r Efengyl oedd ei fwyd a'i ddiod. Lawer tro y dywedodd wrthyf na allai fyw heb bregethu a dychrynai rhag meddwl am roi i fyny. Nid oedd raid iddo. Cafodd ei ddymuniad. Cafodd farw yn yr harnais, chwedl hen bregethwr ac fe wêl yr eglwysi a'r ardal ei eisiau yn hir.

Nid hawdd ei fesur a'i bwyso fel pregethwr, yn enwedig i un o *dype* gwahanol. Pregethwr efengylaidd ydoedd, braidd yn geidwadol ym marn pregethwyr iau ond y mae'n anodd i ddyn wrth heneiddio i ymryddhau oddi wrth syniadau bore oes. Ni wn a oedd yn ddarllenwr mawr ai peidio ond gwn ei fod yn cymryd *pans* wrth lunio pregeth a'i bod yn gymen ganddo bob amser. Yr oedd yn paratoi'n ofalus ac ni sylwais ei fod yn wasgarog erioed. Gallasech beidio bod o'r un farn ag ef ond nid oedd hynyna nac yma nac acw. Cofiaf ddarllen am rywun yn gofyn i Gladstone pam yr âi i wrando ar bregethwr enwog gan nad allai fod yn credu ei syniadau. "Nid yw hyny o un gwahaniaeth", oedd ateb Gladstone : "Y peth mawr yw y mae ef ei hun yn eu credu". Dyma marn innau am Williams—yr oedd yn *sincere*. Nid oedd raid i chwi gydfynd ag ef ymhob peth ond yr oedd ef yn credu a bregethai, a hawdd iddo frathu a chlwyfo rhywun yn ddiarwybod iddo wrth ddinoethu pechodau *parchus* ei oes.

Nid oedd yn llenor yng ngwir ystyr y gair ac ni chredaf bod camp ar ei erthyglau. Y mae yn haws i ambell un na'i gilydd ysgrifennu, ond yr oedd Cymraeg y Beibl yn beraidd ar ei wefus a gwyddai'i Feibl yn dda. O feddwl amdano doi darlun Goldsmith o "Weinidog Gwlad" i'm cof :

"But in his duty prompt at every call,
He watched and wept, he prayed and felt for all.
* * *
At Church, with meek and unaffected grace
His looks adorned the venerable place :
Truth from his lips prevailed with double sway
And fools who came to scoff, remained to pray.

A man he was to all his country dear
And passing rich with forty pounds a year".

Dyna ef i'r dim—yn rhodio ymhlith pobl ei ofal, yn ymweld â'i chleifion ardal gyfan, yn dilyn angladdau'r fro ac yn barod i gydymdeimlo â phawb mewn hiraeth ac adfyd. Yr oedd yn frawdol yn yr ardal, a chyson mewn Cyrddau Mawr pob enwad a minnau'n gofyn iddo un tro pam yr âi mor gyson. Edrychai arnaf yn syn a minnau'n dweud wrtho ateb ffrind o weinidog yn Llanbedr i'r un cwestiwn "Y mae'n dda gwybod fod rhywun yn pregethu'n well heblaw fi fy hunan".

Ni fynnai ergyd chwareus ac ar dro yr oedd yn rhy sariws a braidd yn amddifad o hiwmor iach, ond fel gweinidog ardal wledig, yn byw a bod ymhlith yr ardalwyr, credaf ei fod yn weinidog ffyddlon yn yr Arglwydd.

Yr oedd yn ffyddlon, ffyddlon i'w enwad ac i'w eglwysi, ffyddlon yn ei ardal a ffyddlon i egwyddor ac i Grist ac nid oes ragor i'w ddywedyd am neb.

Hiraeth sydd yn llond pob calon
Nas mynega iaith ;
Hen weinidog yn mynd adre
Wedi gwneud ei waith :
Treuliodd oes i sôn am Iesu
A'u cael ato i fyw—
Dyna ydyw gwaith a bywyd
Pob gweinidog Duw.

Ffarwel heno, hen weinidog !
Ffarwel it, hen ffrind :
Y mae'n rhengau yn teneuo,
Tithau wedi mynd :
Gwag yw Rhydygwin a Chiliau
Heb eu bugail byw :
Ar ei garreg fedd gosoder,—
"Hen Weinidog Duw".

O.

Y Parchedig Lewis Williams

Ni fynnai'r Parchedig Lewis Williams inni alaru oherwydd colli ohonom ei gwmni o'r llwybrau cynefin. Ond pwy o'i gydnabod na all deimlo pwys yr hiraeth sydd ar ei ôl? Gwelodd ef ei ddymuniad: wedi oes hir yng ngwasanaeth ei Feistr bu farw "yn yr harnais". I'w gynhebrwng fe ddaeth tyrfa fawr, cynrychiolaeth deilwng o gynulleidfaoedd pell ac agos, ac ar y tir santaidd wrth y capel prydferth y gwelodd ef ei adeiladu nid oedd lygad sych. Yr oedd Natur hithau, fel pe mewn cydymdeimlad, yn wylo'r gawad.

Y dydd hwnnw ni ellid codi llais yn ei bulpud gwag. Gwyddai pob un ohonom fod y llais melys a fu'n swyno ein cynulleidfaoedd wedi distewi.

Yng nghyrddau'r hydref yn Llandysul y digwyddodd imi siarad ag ef y tro diwethaf. Y prynhawn hwnnw yr oedd yn bryfoclyd o ddireidus yng nghmwni Mr. Griffith Davies, Is-lywydd y Gymdeithas. Yr oedd lliw iechyd yn ei wedd a mwyniant bywyd yn ei chwerthin iachus. Arno nid oedd olion heneiddio na "phoen a blinder" y pedwar ugain mlynedd a mwy. Dyna paham y mae'n anodd ystyried na welir mohono mwy mewn cwrdd chwarter na chwrdd coleg.

Nodweddid ef gan ffyddlondeb diball i gyfarfodydd yr enwad. Cofiaf amdano'n son gyda balchter am y milltiroedd hirion a gerddai trwy deg a garw i'r oedfaon bob Sul. Yn ei gymdogaeth fe gerddodd yn drwm; fe weodd ddylanwad ei bersonoliaeth fwyn a'i gymeriad cadarn i mewn i batrwm bywyd Dyffryn Aeron. Nid gorchwyl iddo ef ydoedd pregethu ond pleser. Ac nid yn unig yng nghyfarfodydd ei enwad y gwelid ef: yr oedd yn fynychwr cyson yng nghyfarfodydd pob enwad. Fel y carai bregethu carai hefyd wrando pregeth. Yr oedd saernïo pregeth yn dasg wrth ei fodd, ac yr oedd ei holl fywyd yng ngwaith y weinidogaeth am fod ei ffydd wedi angori yn y gwerthoedd ysbrydol sy'n rhoi urddas ar fywyd dyn ac amcan i'w ymdrechion ym myd amser. Yr oedd yn bregethwr am fod Duw wedi ei alw i'r gwaith, a thrwy ei ymroddiad enillodd ei le fel "gweinidog da i Iesu Grist".

Yn nyddiau fy ieuenctid cofiaf amdano'n dod ar ei dro i'r oedfa yng Nghaeronnen, i'r cwrdd diolch am y cynhaeaf gan amlaf. I'r bregeth doi ambell stori a fyddai'n gafaelyd yn ein dychymyg ni, y rhai ifainc. Arhosai'r stori yn y cof, a doi profiad helaethach i wireddu'r wers a oedd ynddi. Soniai'r oedolion y pryd hynny am ddyfnder ei feddyliau, ond i ni, y plant ieuainc, yr oedd y swyn yn ei lais a'r angerdd yn ei leferydd yn ddigon i beri gwrando.

Wedi imi roi fy mryd ar fynd i'r weinidogaeth y deuthum yn agos ato a'i adnabod. Yn ystod un o wyliau'r ysgol gofynnodd y Dr. D. J. Davies (Aberystwyth) i mi gwrdd ag ef yn yr Ystrad er mwyn

mynd gyda'n gilydd i weld y Parchedig E. Ceredig Jones. Gwyliau'r Pasg, dydd tesog o wanwyn yn Nyffryn Aeron ! Cyrraedd cartref yr emynydd, ei weld, a gweld fod afiechyd wedi cloi ei gymalau dim ond un arddwrn yn unig yn rhydd fel y gallai ysgrifennu emyn a chroniclo hen arferion ac helyntion ei fro. Yr oedd y Parchedig Lewis Williams yno o'n blaen, a'r prynhawnddydd hwnnw y daeth om i adnabod ein gilydd. Droeon wedi hynny y treuliais oriau hapus ar ei aelwyd, oriau i ddadrys yr Ysgrythur ac i son am grefft y pregethwr. Flynyddoedd yn ddiweddarach y cefais innau gyfle i ddiolch iddo'n gynnes iawn am yr hyfforddiant cynnar hwn. Cefais gyfle hefyd i'w groesawu yntau ar f'aelwyd fy hun.

Yn ystod y blynyddoedd y bu'r YMOFYNNYDD dan fy ngofal ysgrifennodd y Parchedig Lewis Williams nifer go fawr o ysgrifau iddo. Yn y blynyddoedd hynny daeth drosto ryw hwyl newydd i ysgrifennu, nid yn unig i'r YMOFYNNYDD ond i'r *Welsh Gazette* hefyd. Ni ellir darllen ei ysgrifau heb weld ar unwaith mai gwneuc pulpud o'r wasg y mae'r ysgrifennydd, y pregethwr sydd yn medd iannu'r llenor, ac yn yr ysgrifau hynny, ac argraff iaith y Testament Newydd yn gryf arnynt, ymresymu gyda phendantrwydd ar gyhoeddiad y mae'r ysgrifennydd ynghylch egwyddorion y gelf yddyd o fyw'n iawn yn y byd. "Dangos i mi dy ffydd heb dy weith redoedd, a minnau wrth fy ngweithredoedd a ddangosaf i ti fy ffydd". "Wrth eu ffrwythau yr adnabyddwch hwynt". "Ni ellir gwahanu credo a gweithred".

Fel ei deulu yn y Mans a Chaerwilym, fe wêl ei gynulleidfaoedd yng Nghiliau Aeron a Rhydygwin ei eisiau. Bydd ei le'n wag ym mhulpud ei enwad. Bydd Dyffryn Aeron yn galaru ar ôl gweinidog ymroddgar, a llawer o deuluoedd pell ac agos yn cofio'i gyngor a'i gymwynas. Bydd ei gyd-weinidogion yn coffhau amdano fel un a fu'n gysur ac yn ysbrydiaeth iddynt gario "baich yr Arglwydd" ym ei cenhedlaeth. Bydd ei symud ef o'n cyfeillach ni yn gyfrwng i ni feddwl yn fwy dwys am sefyllfa'r weinidogaeth a phregethu'r Gair yn ein capeli. Rhoes yntau'n waddol i ni wers ar bwysigrwydd y pregethu, ar urddas gwaith y weinidogaeth, ar ffyddlondeb i gyrddau'r enwad. Mewn cyfnod pan mae'r diddordeb crefyddol ar drai a chymaint o bethau coegwych a mecanyddol yn meddiannu'r bywyd cyfoes, diolchwn am y rheini sydd wedi cadw eu gafael yn y gwerthoedd crefyddol ac wedi dwyn tystiolaeth dros fendithion y cyd-addoli. Ac er na welsant hwyrach o ffrwyth eu llafur, y mae'n ddiogel gennym na fydd i'r gwirioneddau y safasant drostynt wywo'n llwyr o galonnau dynion.

Geilw Duw ei weithwyr adref, ond erys y gwaith o hyd. Am hynny dyfnhawn ein crediniaeth—er ein mwyn ni ein hunain, er mwyn y rhai a fu'n llafurio o'n blaen, er mwyn y rhai a fydd yn dod ar ein hôl.

J.D.J.

Y Clip ar y Clo

Gan D. Jacob Davies.

Y mae tua phum mlynedd ar hugain wedi mynd heibio ers pan glywais y Parchedig T. Arthur Thomas yn pregethu ar y testun "Na ddiystyrwch ddydd y pethau bychain". Cofiaf am ei eglureb a soniai am gapten llong yn diystyru'r twll pryfyn bach yn y pren ac o'r herwydd mi dyfodd y malltod ac fe suddodd y llong. Y mae eraill yn ysgrifennu am bethau mawr y Parchedig Lewis Williams yn y rhifyn hwn ; digon i mi fydd sylwi ar y pethau bychain. Y pethau bychain wedi'r cyfan sy'n gyfrifol am gadernid cymeriad dyn a'r pethau bychain sy'n rhoi lliw ac arbenigrwydd i bob un ohonom. Yn y pethau amlwg y mae pob un ohonom yr un fath ; y mae pob dyn yn ddyn ac y mae gan bob dyn aelodau arbennig a galluoedd sy'n gyffredin i bob dyn arall, ond nid oes yr un dau ddyn yn hollol yr un fath. Pam ? Yr ydym yn gwahaniaethu yn y pethau bychain. Nid ydych chwi yn botymu eich cot yr un fath â'r dyn drws nesaf, ac ni fyddwch yn laso esgid yn yr un dull, ac y mae i bob un ohonom ei arddull arbennig wrth fyw. Nid yr un het na'r un dei y byddai Lewis Williams a minnau yn eu dewis, ac nid yr un testun yn y pulpud, chwaith, oblegid cofiaf i'm diweddar gyfaill ddywedyd hynny ar goedd yn bur ddiweddar. Wrth gwrs, fe ellid disgwyl hynny, gan mai ef oedd yr hynaf o'n gweinidogion a minnau yr ifancaf—(anrhydedd amheus a berthyn i mi ers pedair blynedd ar ddeg bellach !). Pethau bychain oedd y rhain i gyd ac felly y byddaf i yn cofio am ddynion bob amser—cofio am y pethau bychain annwyl a gwahanol a berthynai iddynt. Gwn i mi anghofio llawer o bregethau mawr, gwefreiddiol Mr. Williams ond ni anghofiaf tra byddwyf amdano yn gwlychu ei fys i droi dail ei bregeth. Pur aneglur yw'r atgof am frawddegau bachog a lifai fel ffrwd y môr ar anterth yr hwyl ond erys byth gil-olwg ei lygad a'r gadwyn aur a grogai'n llaes ar draws ei wasgod. Ie, a dyma i chwi beth *bach* arall—rhywbeth na sylwodd pawb arno efallai—yr oedd ganddo glip bychan yn ei boced i gysylltu copi'r bregeth wrth ddail y Beibl, rhag ofn i'r bregeth lithro oddi ar ei llwyfan. *Yr oedd y llyfr bach ynghlwm wrth y Llyfr Mawr.* Rhywbeth bach—bach iawn, efallai, ond dyna i chwi farc ar gymeriad ac ar bregethu Lewis Williams. Faint o'n pregethau dyfnion, deallus ni, tybed, sydd heb fod ynghlwm wrth benodau'r Beibl ? A yw'r do ifanc wedi colli *clip* Lewis Williams ? Ydym, yr ŷm yn debyg iawn i'n gilydd i gyd ; yr ydym yn weinidogion i gyd, ond ofnaf fod rhai ohonom yn weinidogion heb *glip* !

Y mae'r clip wedi gwneud gwahaniaeth i lawer dyn. Rhywbeth bach yn ei ddal rhag i'w droed lithro. Clywais gyn-filwr yn dweud

wrthyf yn ddiweddar iddo gario tusw bach o wallt ei blentyn gydag ef am bum mlynedd, a'r tusw bychan yn ei atgofio o ymddiried ei deulu ynddo yn ei grwydro pell. Yr oedd clip yn ei boced, a hwnnw yn ei ddal yn gadarn wrth bethau mawr, safadwy bywyd. Sicrhawyd parhad y pethau gorau gan y pethau bychain. Yr oedd Pericles, un o areithwyr mawr gwlad Groeg yn dweud gair bach wrtho'i hun bob amser cyn siarad yn gyhoeddus, "Pericles", meddai, "Cofia mai Groegwr wyt, a'th fod yn mynd i annerch gwŷr Athen ; byddant yn disgwyl rhywbeth mawr gennyt !" Yr oedd yr atgof ei fod yn etifedd i draddodiadau mawr y Groegwyr yn ysbardun i'w feddwl ac ni feiddiai lithro'n is na'r gorffennol. *Yr oedd ganddo glip wrth ei bregeth.* Onid yr un yw ein profiad ninnau ? Y mae temtasiynau yn ein denu i gerdded y ffordd lithrig ond wrth gofio, fel y cofiai Lewis Williams, ein bod yn perthyn i deulu, i gapel ac i draddodiad gwych ein mudiad yr ydym yn rhoi'r clip yn ei le ac "Ni ad efe i'th droed lithro".

Am ryw reswm y mae'r gair clip" yn mynnu llywodraethu hyn o ysgrif a'r naill atgof ynghlwm wrth y llall. Cofiaf ein bod yn bedwar neu bump yn cysgodi yn ystabl Capel-y-Groes ar brynhawn gwlyb rhwng dau gwrdd. Yr oedd clo egwyd yn digwydd bod ar y drws neu ar silff gerllaw a Mr. Williams yn cydio ynddo gan ddweud, ' 'Dych chi'r bechgyn ifenc ddim yn gwybod beth yw bod yn ddarbodus o gwbwl. Welwch chi hwn ? . . . Mi ges i'n nysgu yn fachgen ifanc sut mae ymestyn oes clo ; fe ddyle pawb dorri tipyn bach o hen leder a'i wisgo fel clip am dwll y clo, lle bo'r glaw yn mynd mewn iddo. . . . Wyddoch chi ddim amdani fechgyn bach . . . wn i ddim sut mae ' *hwn a hwn* ' yn gallu fforddio smocio a rhedeg car . . ." Teimlwn yn bur euog gan fy mod innau fel "*hwn a hwn*" heb ddysgu sut yr oedd rhoi clip ar y clo ! Oedd, yr oedd gan Mr. Williams barch i gynildeb a bron yn ddieithriad yn y degau marwgofion a ddanfonodd i mi fel Golygydd yr oedd y "clip ar y clo" yn dod i'r golwg . . . "cofir amdani fel gwraig ddiwyd", "dyn gweithgar oedd ac ni fwytaodd fara seguryd", "bu yn llafurus iawn drwy ei bywyd, ac yn ofalus iawn i beidio gwastraffu dim". Ewch drwy'r marwgofion a ysgrifennodd o un i un ac fe gewch bwysleisio'r rhinwedd yma ymron yn ddieithriad—*clip ar y clo* bob cynnig.

Gallwn fanylu a manylu ym myd y pethau bychain, annwyl yma ond rhaid tewi er cadw gofod i eraill huotlach na myfi. Ond carwn orffen drwy ddweud un peth bach arall,—yr oedd Lewis Williams *yn gerddwr da.* Cerddai fel teiliwr rhwng Ciliau a Rhydygwin ; cerddodd yn lân a cherddodd yn union. Myn "O" yn ei ysgrif fod Dyffryn Aeron wedi gadael ei farc ar gymeriad y gweinidog ; carwn innau awgrymu y bydd ôl troed Mr. Williams yn drwm ar heolydd a llwybrau "glân araf glyn Aeron". Peidiodd y cerdded, "*But his soul goes marching on*".

Hunangofiant Y Parch. Lewis Williams

(*Ail-argraffaf yma un o'r erthyglau cyntaf a dderbyniais pan ymgymerais â golygu'r* YMOFYNNYDD *yn 1949 ; y pryd hwnnw yr oedd Mr. Williams wedi treulio hanner cant a dwy o flynyddoedd yn y weinidogaeth.*)

Y CYCHWYN.

FE'M sefydlwyd yn weinidog ar eglwysi Rhydygwin a Chiliau Aeron ar y 23 o Orffennaf, 1896. Yr oeddwn wedi cael ychydig o brofiad o'r gwaith cyn hynny. A minnau ar derfyn dwy flynedd yng Ngholeg Caerfyrddin derbyniais alwad oddi wrth yr eglwysi yma i'w gwasanaethu fel gweinidog ar derfyn fy nhymor llawn o bedair blynedd yn y Coleg. Ceisiwyd gennyf ymhellach i gymryd gofal o'r eglwysi am y ddwy flynedd olaf o'm hamser yn y Coleg.

Derbyniais yr alwad ar y telerau a nodasent. . . . Yn ystod fy nwy flynedd olaf yn y Coleg yr oedd amryw o'n heglwysi heb weinidog, a byddwn yn gwasanaethu yn yr eglwysi hyn ar y Sul, gan fyned ddwy waith yn y mis i Rydygwin a Chiliau. Cefais bobl yr eglwysi yn garedig i mi pryd hwnnw. Yn fynych byddai fy llogell nos Sul yn llawn o arian glas a melyn. . . . Yr oedd y rhain yn ychwanegol at y tâl a gawswn am fy ngwasanaeth a rhoddodd hyn i mi galondid mawr i wynebu'r weinidogaeth.

Cychwynais yn y weinidogaeth a'm gobeithion yn uchel, a'm brwdfrydedd yn fawr. Da gennyf allu dweud na ddigwyddodd dim annymunol ar hyd y blynyddoedd i oeri fy mrwdfrydedd.

Yr oeddwn yn ymwybodol o'm gwendidau ar y cychwyn, ac yr wyf ers blynyddoedd yn teimlo fod pobl wedi bod yn oddefgar iawn tuag ataf, gan na wnaeth neb fy nigalonni drwy sôn wrthyf am y gwendidau hyn . . .

CYFNOD YR AFIECHYD.

Gallaf ddweud yr un peth am eglwysi Alltyblaca, Capel-y-Bryn a Sychbant, y cefais y fraint o fod yn weinidog arnynt. Pan oeddwn yn weinidog ar yr eglwysi hyn yr oeddwn yn meddu ar fwy o hyder ynof fy hun, a chefais hwy yn gefnogol i mi ymhob ymdrech o'm heiddof, ac edrychaf yn ôl ar y cyfnod hwn fel un ag y bu llwyddiant ar fy llafur. Yn y cyfnod yma goddiweddwyd fi gan afiechyd blin. Ar ôl amser maith o waeledd iechyd, ymddiswyddais, a chafodd yr eglwysi weinidog arall. Cefais adferiad iechyd, ond beth am fy nyfodol? Yr oedd yn dywyll iawn arnaf, "Cloddio nis gallwn, a chardota oedd gywilyddus gennyf". Yr oedd eglwysi Rhydygwin a Chiliau heb weinidog ar y pryd. Trugarhaodd y ddwy eglwys yma wrthyf, ac estynasant i mi alwad i ddyfod yn ôl i'w gwasanaethu yr ail waith, ac fe atebais innau'r alwad yn gadarnhaol. Achubasant fi o gyflwr a fyddai'n sicr o'm difetha. Nid oes gennyf ond gair da i'r weinidogaeth yn yr eglwysi hyn.

Bendithion "Y Barchus Arswydus Swydd".

. . . Ni chredwn y byddwn mor hapus mewn un galwedigaeth arall. Ni wn a ydwyf yn camsynied, ond credaf fy mod wedi gallu gwneud mwy o ddaioni yn y weinidogaeth na allaswn wneud mewn un galwedigaeth arall. . . . Sonia rhai fod cyflogau ein gweinidogion mor isel fel nad oes galondid i fechgyn ieuainc i fyned i'r weinidogaeth. Nid yw maes llafur gweinidog i'w gymharu â meysydd llafur pobol mewn galwedigaethau bydol, er i'r cyflogau yn y meysydd hynny fod yn llawer mwy. Fe geir yn y weinidogaeth yr hyn na cheir mewn galwedigaethau eraill, sef yw hynny, y pleser a ddeillia o waith gweinidog,

"Mae mwy o bleser yn Dy waith
Na dim a fedd y ddaear faith".

Fy nghyflog ar y dechrau oedd £65 y flwyddyn. Dywedir fod costau byw heddiw gymaint dair gwaith ag oeddynt. Mae fy nghyflog wedi cynyddu mwy na chymaint dair gwaith ag ydoedd ar y cychwyn. . . . Yr wyf yn hollol hapus ar derfyn mwy na hanner cant o flynyddoedd yn y weinidogaeth. . . Tra chaniateir nerth i mi wneud fy ngwaith ni bydd arnaf awydd i'w roi heibio.

Priodasau.

Priodwyd Miss JOYCE ULYET â Mr. IDRIS DAVIES o Gefn Coed yng Nghapel Merthyr ar y 27 o Fawrth a'r Parch. D. Jacob Davies yn gwasanaethu.

Yn Highland Place ar y 27 o Fawrth priodwyd Miss DOROTHY GWENLLIAN WILLIAMS a Mr. DEREK SODEN gan y gweinidog.

Rhwydd hynt i'r deuoedd ar eu taith.

Marwogofion

Bu farw WILLIAM S. WILLIAMS, Cletwr Hall, Pontsian, ar y 13 o Chwefror yn 68 mlwydd. Teiliwr ydoedd wrth ei alwedigaeth. I gapel Waunifor y perthynai ei rieni. Daeth ef a'i chwiorydd yn aelodau yn Llwynrhydowen, a bu yntau'n hynod o ffyddlon a gweithgar. Yn St. John y claddwyd ef ar y 17 o Chwefror. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan ei weinidog, y Parch. A. J. Martin, ac yn yr eglwys gan yr offeiriaid yn unig. Yr oedd y Parch. J. Marles Thomas yntau'n bresennol. Gadawyd yn eu galar weddw a merch, a fu'n gweini'n ffyddlon arno yn ystod ei afiechyd hir.

Gwraig o Langefni oedd ANNE JONES, priod Rhys Jones, Llysycoed, Cwmpib, Cribyn, a fu farw ar y 21 o Chwefror yn 81. Un hawddgar, garedig ydoedd, un o bobl wresog Môn, gwraig gymwynasgar, a chynhesrwydd caredig i'w deimlo yn ei llais a'i gwedd. Bu'n garedig i'r diweddar Barch. E. Griffith Jones pan letyai gyda hi, a thystiodd y Parch. A. J. Martin ddydd ei hangladd, 25 o Chwefror, i'w theyrngarwch a'i graslonrwydd hi. Gwasanaethwyd yn y tŷ a Throedrhiw gan y Parchn. D. Emlyn Hopkins a T. Lloyd Jones. Cydymdeimlir yn fawr â'i phriod yn ei alar a'i henaint.

Ionor 22, 1954 yn 51 mlwydd oed bu farw MARY ELEANOR EVANS, annwyl briod David John Evans, Gelli, Felinfach, gyda sydynrwydd annisgwyliadwy. Yr own yn ei hadnabod ers blynyddoedd hir a chofiaf amdani yn dod o Fwlch Blaencarn i Gaeronnen, cyn i'r teulu symud i'r Clytau. Yr oedd iddi barch gan ardal eang a thystiai ei hangladd ar ddiwrnod eiraog oer i'r parch hwn. Yr oedd yn siriol ac o gymeriad moesol cadarn ac yn fenyw lawn ar ei haelwyd ac yn ei hardal. Ar ddydd ei harwyl yr oedd ei gweinidog wedi'i gaethiwo i'w wely a chymerwyd yr angladd gan y Parch. T. O. Williams, yntau yn bedyddio ei hŵyr bach, Evan Leonard Pugh ar arch ei famgu. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parchn. T. Lloyd Jones, Tynygwndwn a

T. O. Williams, Llanbedr. Siaradwyd yn y Capel yn Nhynygwndwn gan y Parchn. T. Lloyd Jones a T. O. Williams a chynorthwywyd gan y Parchn. J. E. Jones, B.A., S. Evans Bowen, Lloyd Jones, B.A., E. Owen, E. Davies, Anthony Davies a Trevor Lloyd, Llanbedr. Claddwyd y dydd Mawrth dilynol ym mynwent Tynygwndwn. Gadawodd briod a dwy ferch (ill dwy yn briod), wŷr bach, heblaw perthynasau agos eraill i alaru o'i cholli mor gynnar a disymwth. Gobeithio yr ymdawela y teulu gan gofio mai "A sorrow's crown of sorrows is remembering happier things".

Ionawr 23, yn 75 mlwydd oed, bu farw DAVID JONES, Tynycoed, Cellan ond gynt o Gwmanne a Gallt-shedrem, Pencarreg. Yr oedd yn newyddiadurwr o'i fodd ac ysgrifennodd gannoedd o lythyrau i'r wasg a gallai ysgrifennu i bwrpas ac yn ddestlus ddigon. Cymerai ddiddordeb yng ngweithrediadau'r cynghorau a charai roi ei bwynt ei hun ond bob amser hyd y gwn i dan ei enw priod. Yr oedd rhywbeth yn fyw a chyfeillgar ynddo. Claddwyd y dydd Mercher canlynol ym medd ei briod ym mynwent Brondeifi a gwasanaethwyd gan y Parchn. T. O. Williams, Tom Ellis Jones a John Hughes, Ficer Cellan. Gadawodd frodyr a chwiorydd heblaw perthynasau eraill a llu o hen gyfeillion bore oes i alaru ar ei ôl. Gadawodd gymynrodd o £30 i Eglwys Brondeifi ac yn y fynwent gerllaw yr huna ei hun olaf.

Chwefror 9, yn 82 mlwydd oed, bu farw DAVID THOMAS EVANS, Dolycoed, New Street, Llanbedr, ond yn fwy adnabyddus fel o Sychbant, Cwmsychbant. Cofir amdano ym Maesgwyn, Cellan flynyddoedd lawer yn ôl ac nid oes blynyddoedd meithion er iddo ddod i sosial i Gaeronnen a chanu yno y gân a ganasai yno ryw hanner can mlynedd yn ôl. Y mae ardal y Cwm a phlwyf Llanwenog yn ei gofio fel un a fu yn amaethu yn y Sychbant a Chwm. Onid wyf yn camgofio cefais y pleser prudd o dalu'r gymwynas olaf i blant Sychbant i gyd. Gwyddai 'i ffrindiau tod Dafydd yn storïawr o'i fodd ac yn llawn o hiwmor iach. Y dydd Gwener canlynol hebryngwyd ei weddillion marwol i fynwent Capel-y-Groes. Gwasanaethwyd yn yr angladd gan y Parch. T. O. Williams, M.A. Gadawodd nifer o berthynasau a llu o hen gyfeillion i gofio'n garedig amdano ac ail adrodd ei storiau. Heddwch i'w lwch.

Chwefror 12, 1954, yn 60 mlwydd oed, bu farw THOMAS EVANS, 2, Beehive Terrace, Trefechan, Aberystwyth, ond yn fwy adnabyddus fel Gorsaf-feistr Felinfach a phriod Martha, un o ferched y diweddar Mr. a Mrs. Evans, Penwern, Felinfach. Yr oedd o ysbryd addfwyn a thawel, ymroddgar yn ei waith ac iddo air da, ond collodd ei iechyd yn gynnar ac yr oedd wedi gorfod rhoi ei waith fel Arolygwr ar y Rheilffordd i fyny ers amryw flynyddoedd. Claddwyd y dydd Mawrth canlynol yn ei ddewis fan ym mynwent Brondeifi. Gwasanaethwyd gan y Parchn. T. O. Williams, M.A. a Dewi Jones, Ficer Silian, yr angladd yn anghyoedd. Gadawodd weddw ac un mab a nifer o berthynasau agos a llu o ffrindiau i wylo deigryn ar ei ôl.

Chwefror 26, yn 56 mlwydd oed, bu farw DAVID ELIAS DAVIES, Hengoed, Market Place, Llanbedr, wedi dihoeni'n hir. Nid oedd wedi mwynhau iechyd da ers blynyddoedd ond mynnodd fyw er mwyn y plant. Collodd ei briod yn gynnar gan ei adael yn dad a mam i bedair geneth fach. Y maent wedi tyfu i fyny bellach a'r ieuengaf yn briod. Er gwaethaf ei boen a'i lesgedd daliodd ei ysbryd yn siriol a dioddefodd y cyfan heb rwgnach nac achwyn. Dodrefnydd (*Cabinet Maker*) ydoedd wrth ei alwedigaeth, ond yr oedd wedi gadael ei grefft ers blynyddoedd. Bydd ei le yn wag yn yr Hengoed a'r aelwyd yn oer hebddo. Claddwyd ar Ddydd Gwyl Dewi ym mynwent Eglwys Brondeifi—yr angladd yn anghyoedd a'r Gweinidog, y Parch. T. O. Williams yn gwasanaethu. Gadawodd bedair merch, un brawd (yntau ymhell o fod yn iach ar hyn o bryd), a dwy chwaer, heblaw nifer o berthynasau a llu o gyfeillion i alaru ar ôl tad gofalus, brawd caredig a chyfaill cywir.

Ar Ionawr 3, yn Ysbyty Caerfyrddin, VAUGHAN, baban bychan tri mis oed i Mr. a Mrs. Jones, Cwmafon, Pentrecwrt, Llandysul. Cymerwyd y gwasanaeth gan y Parch. J. Marles Thomas a chladdwyd ym mynwent Pantydefaid y dydd Mawrth dilynol.

Ar Ionawr 30, ar ôl cystudd hir a chaled, yr hoffus Gapten WILLIAM DAVIES, M.R.C.V.S., Faerdre, Llandysul yn 69 oed. Gŵr o gymeriad cadarn a chyfaill pob achos da. Fel "Fet y Faerdre" yr adnabyddid ef gan y lliaws a rhoddodd fywyd o wasanaeth i'r wlad yn ôl ei alwedigaeth. Eithr iddo ef nid digon byw ar fara yn unig. Ymddiddorai mewn byd eang, achosion tu allan i'w alwedigaeth, ac yn y cyfeiriad hwnnw y profodd ei hun yn ddinesydd o'r iawn ryw. Colled i ardal ac i ddiwylliant cefn gwlad oedd ei golli ef. Cydymdeimlir yn fawr â'r weddw, y ddau fab (y Dr. Dan Davies a Mr. D. G. E. Davies, M.R.C.V.S.), ag a'i unig frawd, Mr. Daff Davies, Faerdre-fach. Claddwyd ei weddillion ym mynwent Pantydefaid y dydd Mercher dilynol. Methodd ei Gyn-Weinidog, y Parch. Dd. Williams, Carmel a bod yn bresennol oherwydd afiechyd. Cymerwyd y gwasanaeth yn y tŷ gan y Parch. J. Marles Thomas ac yn y Capel gan y Parchn. W. R. Nicholas, Horeb; S. E. Bowen ; Aubrey Martin ; R. Morris, Penybont ; T. R. Evans (Ficer) a thraddodwyd anerchiad gan Weinidog y lle. Gorffenwyd y gwasanaeth ar lan y bedd gan y Parchn. W. R. Nicholas a J. Marles Thomas.

Ar Sadwrn, Chwefror 6 bu farw yn sydyn ac annisgwyl T. J. EVANS ("TOMMY"), Camden Court, Llandysul yn 57 oed. Gwyddem nad oedd y cryfaf o ran iechyd, ond ni feddyliodd neb y deuai y diwedd mor ddirybudd. Hannai o deulu parchus y "Wilkes Head". Fe ŵyr Undodiaid y Sir am yr hen deulu hwn, ac yr oedd "Tommy" o drâs y ffyddloniaid. Cymeriad hoffus ydoedd a gwên ar ei wyneb i bawb, a pharod ei gymwynas. Am rai blynyddoedd bu yn y fusnes laeth yn y Brif-ddinas, ond dychwelodd i'w hen ardal. Colled fawr i eglwys y Graig ydyw colli ei fath ef. Daeth torf enfawr ynghyd ar ddydd ei angladd—y Mercher dilynol—i Gapel Pantydefaid i dalu iddo'r gymwynas ola. Hawdd canfod bryd hynny iddo fod yn fawr ei barch yn yr

ardaloedd. Cymerwyd rhan yn y tŷ gan y Parchn. J. Marles Thomas, D Rhydderch (A) a Richard Morris (B); yn y Capel pregethwyd gan ei Weinidog, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. S. E. Bowen, Aubrey Martin, D. M. Davies, Hawen (A) a T. R. Evans, y Ficer. Cyfeiliwyd gan Miss Nansi Jones, B.A. Y mae cydymdeimlad llu o gyfeillion â'r weddw a'i hunig blentyn, Eira, ac a'i ddwy chwaer. Boed iddynt bob ymgeledd.

Ar Sul, Mawrth 7, MARY JANE EVANS, Awelon, Llandysul yn 78 oed. Priod annwyl ydoedd i'r Parch. E. Gwilym Evans, B.A., Cyn-Weinidog y Graig a Phantydefaid. Dioddefodd gystudd maith a chaled, ond yn ddewr a dirwgnach. Merch hynaf y diweddar Mr. a Mrs. Evan Jones, Commerce House, Llangeitho ydoedd ac nid oes bellach yn aros ar ôl ond ei chwaer—Mrs. David Evans, Glanhelen, Llanbedr. Gwyddai hi am oriau duon poen a blinder, eithr ni fynnai i'r duwch ei gorchfygu, nac i'r poen ei llethu. Yr oedd rhywbeth ynddi sy'n medru gorchfygu anawsterau. Bu droeon o dan weithred law-feddygol, ond ni allai dim dorri ei chalon. I'w phriod, bu yn gydymaith da drwy'r blynyddoedd ; i'w phlant, bu yn fam ragorol—hawdd canfod hynny o weld gofal y plant drosti. I'w heglwys bu yn ffyddlon. Treuliodd y rhan fwyaf o'i bywyd priodasol yn Dukinfield, lle y bu Mr. Evans yn weinidog am flynyddoedd. Wedi ymsefydlu yn Llandysul yn 1933 rhoddodd ei chalon i gyfeillgarwch, a'i doniau i wasanaeth. Ac heddiw mawr ydyw'r hiraeth ar ei hôl. Nodded Duw fyddo i'r Parch. Gwilym Evans a'i deulu. Claddwyd ei gweddillion yn hen fynwent Llangeitho y dydd Iau dilynol, yr oedd y gwasanaethau yn breifat. Cymerwyd rhan yn y tŷ gan Parchn. J. Marles Thomas, y Prifathro J. D. Jones, Caerfyrddin a Frank Hosiall Rose Crowther (nai-yng-nghyfraith) ; ar lan y bedd—y Parchn. S. E. Bowen, Aubrey Martin a Heber Alun Evans, Gweinidog y Methodistiaid yn Llangeitho.

Ar Chwefror y 24 bu farw yn Heulfryn, Llanwnen, ELIZABETH ANNE (LIZZIE), merch Margaret a'r diweddar John Jenkins, yn 32 oed. Yn ystod y rhyfel mawr diwethaf bu yn gweithio mewn ffatri eroplenau yng Nghasnewydd. Torrodd ei hiechyd i lawr a bu'n dioddef ac yn ffaeledig iawn am y tair-blynedd-ar-ddeg diwethaf o'i hoes. Gadawodd fam, dwy chwaer a chwech o frodyr a llawer o berthnasau i hiraethu ar ei hôl. Claddwyd hi yng Nghapelygores ar y 27ain a gwasanaethodd y Parchn. A. J. Martin, B.A. a J. Islan Jones, M.A. Anghyoedd oedd yr angladd.

Medi 15 yn 50 mlwydd oed bu farw EVAN JONES, Felindre, Pencarreg, Llanbedr. Amaethwr cyfrifol ydoedd a chymydog caredig a didwyll. Yr oedd iddo air da yn ei ardal a thrwy'r gymydogaeth. Ni welid ef un amser heb ei wên serchus, ac yr oedd ei galon garedig yn adnabyddus i bawb. Gweithiodd yn galed ar ei fferm a gellid dweud am dano—

Amaethwr Cymreig, dyna i gyd,
Ei ddiwrnod i'w dyddyn a roes.

Claddwyd y dydd Sadwrn dilynol ym mynwent Brondeifi, yr angladd yn anghyoedd, a gwasanaethwyd gan y Parchn. T. Ellis Jones a T. O. Williams,

M.A. Gadawodd briod (Martha, merch y diweddar Mr. a Mrs. John Thomas, Pensarn Cottage, Cwrtnewydd), a mab a merch, heblaw brodyr a chwiorydd, i alaru o'i golli mor gynnar. Bydded i'w deulu bach gael nerth yn ôl y dydd.

Mawrth 5, yn 88 mlwydd oed, bu farw yn dra sydyn ELIZABETH EVANS, 11, Treherbert, Cwmanne, Llanbedr. Merch ydoedd i Deio'r Hwper, un o bileri Brondeifi 'slawer dydd a chwaer i'r diweddar Barch. Hathren Davies, Cefncoed y Cymer. Hi oedd yr aelod hynaf ym Mrondeifi ac wedi bod yma erioed, yn eithriadol o ffyddlon. Yr oedd rhywbeth yn siriol a charedig ynddi bob amser ac ni alwais erioed arni heb gael croeso calon ddiwenwyn bob tro. Carai Brondeifi â chariad angherddol ac yr oedd popeth yma wrth ei bodd. Ni ddoi i farnu na chwilio bai ond yn hytrach doi yma i ddal cymundeb â Duw. Claddwyd y dydd Mawrth dilynol ym mynwent Brondeifi a gwasanaethwyd gan y Gweinidog, y Parch. T. O. Williams gyda chynhorthwy caredig Ficer Pencarreg a'r Parchn. T. Ellis Jones a Burgess Jones. Gadawodd un mab, yntau'n brifathro Ysgol Fodern yng ngogledd Lloegr a phump o wyrion a fagodd wedi claddu'u mam yn gynnar gynnar, ac un chwaer, yr olaf o bedwar ar ddeg o blant, i alaru o'i cholli. Arosed ei chysgod fel cysgod Pedr dros ei theulu a thros yr Eglwys.

Mawrth 8, yn 66 mlwydd oed, wedi dihoeni dro bu farw VIOLET ANNE RICHARDS, priod Samuel Richards, Lowtre, Llanwnwn. Un o ferched Ffynnonfair ydoedd, ac fel yr oll o'r teulu yn Undodraig i'r craidd. Dechreuodd ei hoes ond odid yn Lanlas, Cellan a tharddai o deulu Undodaidd o'r ddwy ochr. Yr adeg hon yr oedd yn ffyddlon yng Nghaeronnen ond wedi symud o'r teulu i Ffynnonfair ymaelododd yng Nghapel-y-Groes ac wedi mynd i fyw i Lowtre cadwodd yn ffyddlon yng Nghapel-y-Groes. Yr oedd o gymeriad cadarn, yn briod ffyddlon, yn fam ofalus a chwaer ddidwyll. Claddwyd y dydd Gwener canlynol yng Nghapel-y-Groes a gwasanaethwyd gan y Parch. T. O. Williams, M.A. gyda chynhorthwy parod y Parch. Mr. Sedgemore (ei mab yng nghyfraith), y Parch. Samuel Morgan, Ficer Llanwenog y Parch. Mr. Evans (M.C.) a'r Parch. Dewi Jones, Ficer Silian. Gadawodd ar ei hôl briod, tri o blant, chwaer a dau frawd, heblaw nifer o wyrion bach a llu o berthynasau a ffrindiau. Nodded y nef fo drostynt yn eu hiraeth a'u hunigedd.

Bu farw'r Dr. MARTIN LLEWELLYN JONES, F.R.C.S., L.R.C.P., D.P.H., yn y Brynhyfryd, Aberdâr, Mawrth 23 yn 85 oed. Yr oedd yn fab i deulu enwog "Y Ceffyl Gwyn", Aberdâr ac yn Undodwr argyhoeddedig. Addysgwyd ef yn y lle cyntaf yn ysgol R.J.J. ac o'r fan honno aeth rhagddo i ddilyn gyrfa ddisglair mewn gwahanol golegau a sefydliadau. Yr oedd wedi graddio yn feddyg cyn iddo gyrraedd 21 oed. Daeth yn ôl i Aberdâr at ei waith a chofir amdano fel un o sefydlwyr yr Ysbyty yn y lle hwnnw. Siaradai yn blaen heb flewyn ar ei dafod, carai lenyddiaeth a barddoniaeth ac yr oedd yn gwbl ddi-ofn fel llaw-feddyg. Gedy briod a dau fab i alaru ar ei ôl. Gwasanaethwyd yn y tŷ ac yng Ngwyddfa ludwhau Pontypridd gan y Parch. D. Jacob Davies.

Ar y 29 o Fawrth bu farw Mrs. MARTHA MARIAH SULGWYN MORRIS, 32, Oxford Street, Aberdâr yn 62 oed. Dihoenodd am 12 mlynedd ac fe gafodd ofal tyner gan ei theulu ar hyd yr amser. Hannai o deulu enwog y "Lloyd Jones'" a pherthnasau agos oedd y diweddar Barchn. T. Lloyd-Jones a Fisher Jones a'r hen arwr Jenkin Lloyd Jones (Chicago) o'r un teulu wrth gwrs. Meddai ar urddas arbennig y teulu nodedig hwn sydd wedi llywio ffordd Undodiaeth mewn llawer gwlad. Cydymdeimlir â'r teulu yn ei hiraeth o'i cholli. Claddwyd y dydd Iau canlynol a'i gweinidog, y Parch. D. Jacob Davies yn gwasanaethu.

(Er mawr flinder bu raid cwtogi'r marwgofion y tro hwn am fod cynifer ohonynt.—*Golygydd*).

Gohebiaeth

Annwyl Olygydd,—

Wrth gyflwyno fy ngoruchwyliaeth o Gronfa'r Myfyrwyr i'm olynydd, carwn ddiolch yn wresog iawn i'r tanysgrifwyr a'r casglwyr am eu cefnogaeth ddi-ball drwy'r cyfnod. Llwyddwyd i godi swm y cyfraniadau yn sylweddol yn ystod y cyfnod hwn. Buom heb fyfyrwyr yn ystod cyfnod y Rhyfel ac fe gawsom gyfle i sicrhau gwell seiliau i'r gronfa, ac fe gyfiawnheir heddiw ffyddlondeb y rhai na laesodd eu dwylo ar y pryd gan fod y galwadau erbyn hyn wedi cynhyddu tu hwnt i bob amgyffred. Pum punt ar hugain oedd uchafswm y cymorth a roddid i unrhyw fyfyriwr yn 1939 ond eleni y mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am £300 i ddau fyfyriwr, heb gyfrif dros £200 o Bwyllgor Addysg Ceredigion. Y mae hwn yn faich trwm i'm holynydd ond nid yn rhy drwm os y caiff gefnogaeth hael megis a welwyd yn 1950 pan gyfranwyd dros £150. Rhowch galondid i'r Parch. J. Marles Thomas, M.A. ar ddechrau ei waith fel trysorydd trwy ddanfon cyfraniadau hael a phrydlon ato i'r Aelwen, Llandysul, a bendith fo ar ei ymdrech.

Simon Jones.

OEDRAN "YR YMOFYNNYDD".

Gwelais nodyn mewn newyddiadur yn ddiweddar yn camddyddio genedigaeth Yr Ymofynnydd.

Daeth y rhifyn cyntaf allan ym mis Medi 1847 a'r cyhoeddwr yn 1848 oedd Josiah Thomas Jones, Caerfyrddin.

Yn 1849 y cyhoeddwr oedd William Winstone, Penybont, a phris y misolyn oedd tair ceiniog y rhifyn.

Yr oedd Yr Ymofynnydd yn ei ieuenctid gryn dipyn yn fwy diwinyddol ei naws nag ydyw heddiw, ac yn cynnwys erthyglau trymion ar bynciau diwinyddol llosg y dyddiau hynny. Un adeg cynwysai pob rhifyn oddeutu pedair tudalen ar hugain o fater dwys,—digon o waith i'w dreulio am fis. Y mae cryn ddiddordeb i rai ohonom yn yr hen rifynnau.

J.I.J.

Newyddion yr Enwad

"YR YMOFYNNYDD".—Y mae galwadau arbennig yn disgyn ar ein cylchgrawn o bryd i'w gilydd ac i gwrdd â'r rheiny mae'n rhaid i'r Golygydd ychwanegu at ei faint mewn tudalennau. Digwyddodd hynny eisoes eleni a chyda'r rhifyn hwn, a mawr obeithiwn y daw cyfraniadau hael i gyfarfod â'r gost ychwanegol. Diolch yn fawr am garedigrwydd y canlynol, Mrs. E. M. Arthur Thomas, Richmond Villa, £1/1/0; Mrs. Mally James, Richmond Villa, £1/1/0 a Mr. a Mrs. David Davies, Penlôn, Tregroes, 10/-.

LLWYNRHYDOWEN.—Ar y 24 o Ionor, anrhegwyd Mrs. Myra Parry Jones â chloc gan y gynulleidfa am ei gwasanaeth a'i ffyddlondeb wrth ganu'r organ.

BWLCHYFADFA.—Ar nos Sadwrn, Chwefror 20 cafodd y plant a fu'n chwarae yn y Pasiant wledd fawr o de gan eu hathrawes, Miss Ellen Thomas, Green Grove. Gwasanaethodd y cwmni mewn nifer o gapelau eisoes ac y mae rhagor o alw amdanynt eto.—Nos Sadwrn, Chwefror 27 bu cwmni drama Beulah yn chwarae'r ddrama "Dan Nawdd y Nos" yn y Neuadd Goffa. Diolchwyd i'r cwmni am berfformiad gwych gan y Parch. Aubrey Martin a E. Ll. Jones, Llanybydder.

HIGHLAND PLACE.—Daeth adran o Gôr Bechgyn Cwmbach i'r neuadd yma ar Nos Fercher, 31 o Fawrth i roi cyngerdd amrywiol i ni. Llanwyd y lle â hwyl a daeth elw sylweddol o'r gyngerdd i gwrdd â threuliau arbennig ynglŷn â'r sustem dwymo.

"YR HEN GAMBO".—Cyhoeddir ysgrif ddiddorol gan 'Isfoel,' un o fechgyn dawnus y Cilie ar y testun uchod cyn hir. Diffyg lle yn unig a rwystrodd iddi ymddangos eisoes.

CRONFA DDATHLU'R GYMDEITHAS.—Yng nghyfarfodydd dathlu can mlwyddiant a hanner y Gymdeithas Undodaidd penderfynwyd ffurfio Cronfa arbennig i'w defnyddio er hyrwyddo gwaith ieuenctid yn ein heglwysi. Trefnwyd ein bod yn cyhoeddi detholiad newydd o emynau a thonau ar gyfer ieuenctid a gofynwyd am gefnogaeth ariannol i'r antur. Y mae tair eglwys eisoes wedi cyfrannu £5 yr un ac un Ysgol Sul, £5. Gofynnir i'r eglwysi eraill ac unigolion i gofio am y Gronfa a danfoner hwy ar fyrder i'r Parch. J. Marles Thomas, Yr Aelwen, Llandysul.

CYFARFODYDD Y GYMDEITHAS.—Cynhelir Cyfarfodydd y Pasg yn Nhrebanos ar y 4 a 5 o Fai gyda'r drefn arferol mewn grym.

CYMANFA GANU MORGANNWG.—Cynhelir y Gymanfa hon ar Ddydd Llun y Pasg, Ebrill 19 yn yr Hen Dŷ Cwrdd, Trecynon gydag oedfaon am 10.30, 2 a 5.30. Croeso cynnes i ymwelwyr o bob rhan o Forgannwg, o bob rhan o Geredigion a'r byd i gyd! Paratoir lluniaeth ar eich cyfer. John Thomas fydd yn arwain a Mr. W. J. Jones, A.L.C.M. fydd wrth yr organ.

LLONGYFARCHION.—Dymunwn longyfarch y Parch. T. Oswald Williams, M.A. ar dderbyn ohono'r anrhydedd o'i ethol yn "Ddinesydd Rhydd" o fwrdeisdref Llanbedr. Y mae Mr. Williams wedi gwasanaethu'r dref am lawer o flynyddoedd fel aelod o'r Cyngor, fel Maer y dref deirgwaith, fel aelod o'r Pwyllgor Addysg a llawer o swyddi perthynol. A theimlwn felly ei fod yn wir deilwng o'r anrhydedd.

CWRDD BLYNYDDOL URDD Y BENYWOD, DE-DDWYRAIN CYMRU.—Cynhaliwyd y cyfarfod uchod ar Ddydd Mercher y 17 o Fawrth yng Nghapel y Graig, Trebanos a Mrs. S. J. Edwards yn llywyddu. Dechreuwyd y cwrdd gan Mrs. Edwards trwy ddarlleniad a gweddi ac fe'i dilynwyd gan y Parch. Basil Viney, Abertawe yn rhoi hanes ei daith i'r Unol Daleithiau. Rhoddodd gipdrem glir ar feddwl a daliadau'r trigolion a chlywsom fod cyfartaledd cynulliadau'r capelau yn llawer gwell nag ydyw yma. Cafwyd trafodaeth ar ddiwedd y ddarlith a diolchwyd yn gynnes i'r darlithiwr am ei waith.—Yn dilyn cafwyd cwrdd gweithy Gymdeithas a dewisiwyd y swyddogion a ganlyn—Llywydd, Mrs. S. J. Edwards, y Graig ; Is-Lywydd, Mrs. M. J. Davies, Hen Dŷ Cwrdd, Trecynon ; Ysgrifennydd, Mrs. J. R. James, yr Hen Dŷ Cwrdd a Miss Ann Morgan o'r Graig fel Trysorydd. Gweinyddwyd y Cymun i gwblhau'r cwrdd a'r Parch. Helen Phillips yn gwasanaethu. Creodd argraff ddofn ar y gynulleidfa.—Blin gennym glywed fod Miss E. R. Lee yn yr ysbyty dan driniaeth, a dymunwn iddi wellhad buan. Yr organydd oedd Mr. I. E. Hopkin, B.Sc. (H.J.W.).

CRIBYN.—Y mae Miss Cynthia Davies, Tynewydd, Cribyn wedi cael derbyniad i Goleg Normal, Bangor a bydd yn cychwyn ar ei hefrydiaeth yno ym mis Hydref. Dymunwn bob llwyddiant iddi.

GRAIG A PHANTYDEFAID.—Llongyfarchion cynnes galon i Mr. Thomas Lloyd, Pyllau'r Bryn ar gyrraedd ohono ei 92 oed. Er llwyth y blynyddoedd ni flina yn ei ddiddordeb yn yr achos ; esiampl dda i lawer ym mlodau eu dyddiau. "Bydd ifanc fyth hen ŵr mwyn".—Hefyd ein llawenydd o glywed am Briodas Aur Mr. a Mrs. D. Davies, Penlôn. Gobeithio y ceir cyfle yn y Gwanwyn i ddathlu'r achlysur.—Ein dymuniadau da i'r aelodau hynny fu dan driniaeth lawfeddygol yn yr ysbyty yn ddiweddar, ac i bawb mewn afiechyd. Da gennym glywed am wellhad Mr. J. C. Jones, Derwydd, a'i ddod gartre o'r Ysbyty yng Nghaerfyrddin. Hefyd Mr. Sam Jones, Pantbach, ac eto Mrs. Jones, Fountain Cafe, Llandysul.—Y mae tymor gweithgarwch y gaeaf yn dirwyn i ben. Bu'r tymor yn fawr ei ddiddordeb i Gymdeithas y Bobl Ieuainc. Ar Ionawr 15 cafwyd darlith ddiddorol gan Mr. Tysul Jones, B.A. ar "Ddwywaith yn Blentyn". Ar y 29 cynhaliwyd dadl frwd ym Mhantydefaid ar y testun—"A yw darganfyddiadau gwyddor o help i wraig y tŷ". Cymerwyd rhan gan Misses Dilys Davies, Pegi Evans, Margaret Evans a Mr. Tweli Davies. Cymerwyd y Gadair gan Miss Nansi Jones, B.A., Tregroes. Treuliwyd "Noson Lawen" yn y Graig ar Chwefror 12, ac ar Mawrth 5 perfformiwyd tair Drama fer gan fobl ieuainc a phlant y Graig yn Neuadd

Pantydefaid. Ar Mawrth 16 aeth rhai o'r Bobl Ieuainc i ymgomwest i Goleg Caerfyrddin—a chwrdd â phobl ieuainc Parcyvelvet.—Nos Sul, Chwefror 21 gwahoddwyd plant a phobl ieuainc y Bwlch i lwyfanu eu Pasiant Crefyddol yn y Graig. Bu llwyddiant mawr ar y gwaith. Cynhaliwyd cyfarfodydd blynyddol i dderbyn adroddiadau a chyfrifon am y flwyddyn yn y ddau le ar Chwefror 17 a Mawrth 10. Cafwyd boddhad o dderbyn y gwahanol adroddiadau. O ddiddordeb efallai i'r eglwysi eraill da gennym gofnodi i'r ddwy eglwys gyfranu £5 yr un at Gronfa'r Gymdeithas a llyfr Emynau Newydd i'r plant a'r Bobl Ieuainc.

A DDARLLENASOCH CHWI?—(1) *Llafar Gŵyl Dewi* 1954—un o'r rhifynnau gorau eto; Pris 3/6; Gwasg Aberystwyth. (2) *Y Dysgedydd*—Rhifyn Mawrth 1954—"Rhifyn Coffa Elfed". Ynddo ceir ysgrifau helaeth (27 tud.) ar yr hen wron fel Pregethwr, Bardd, Emynydd a ffigur Cenedlaethol. Pris, 6ch. o Wasg John Penry, Heol Cowell, Llanelli.

Arholiad yr Ysgolion Sul 1954

ALLTYBLACA. *Llafar*—Safon I: Keith Bundock, Kenneth Davies, Nance Evans, Betty Bundock; Safon II: Wat Bundock, Lilian Davies. *Ysgrifenedig*—Safon II: Llewelyn Williams; Safon III: *John Bundock, John Walters, Betty Williams, Gwendoline Jones, Pauline Williams.

BRONDEIFI. *Llafar*—Safon I: Gareth Williams, Denzil Williams, Heddwen James, Mair James. Safon II: Jeffrey Jones.

BWLCHYFADFA. *Llafar*—Safon I: Evan Gerald Evans, Gwynfor Jones, Ronnie Jones. Safon II: David Emlyn Jones, Tommy Thomas, Iwan Evans, May Jones.

CAERONNEN. *Llafar*—Safon I: Sian Williams, Lynne Jones, Mair Williams, Gareth Davies. Safon II: Dewi Davies, Emma Williams. *Ysgrifenedig*—Safon II: *Olwen Davies. Safon III: Elsa Thomas, Wenna Thomas.

CAPEL-Y-BRYN. *Llafar*—Safon I: Helena Evans, Geraint Lloyd, Brian Davies, John Williams, Elin Jones, Mair Jones, Caryl Elias. *Ysgrifenedig*—Safon II: *Sallie Thomas, Minnie Thomas, Glenda Evans, Brynmor Morgans, Rayan Lloyd.

CAPEL-Y-CWM. *Llafar*—Safon I: Hannah Mary James, Leslie Jenkins, Hazel Phillips. Safon II: Dennis Davies. *Ysgrifenedig*—Safon II: *Bet Jenkins. Safon III: Mary Davies, Donald James Davies, Gwyn Davies, Betty Evans, Goronwy Evans.

CAPEL Y GRAIG. *Ysgrifenedig*—Safon III: *Mary Thomas, Ann Gwenda Evans, Margaret Evans, *Morfudd Thomas.

CAPEL-Y-GROES. *Llafar*—Safon I: Marie Richards, Sylvia Davies, Carol Evans, Ann Richards, Doreen Evans, Dilys Davies, Brian Jones, Geraint Jones, David Richards. *Ysgrifenedig*—Safon II: Bridget Kinsella, *Nella

Jones, Glenda Jenkins, Emlyn Davies, John Thomas, Dilwyn Thomas, Glyn Davies. Safon III : Maureen Davies.

PANTYDEFAID. *Llafar*—Safon I : Eirwyn Evans, Wallace James Thomas, Eirwyn Brown, Alan Jones, Gillian M. Thomas, Delphine Brown. *Ysgrifenedig*—Safon II : Marian Davies, Nannie Davies, Eileen Evans, Terry Brown. Safon III : Ronald Davies, Allan Brown, Eilir Jones, Ken Crabb.

RHYDYGWIN. *Llafar*—Safon I : Janet Wale, John Wale, Dennis Rowlands, Terry Rowlands, Ann Jonathan Davies, Mair Rowlands. *Ysgrifenedig*—Safon III : Julia Rowlands.

CILIAU AERON. *Llafar*—Safon I : Beryl Lloyd, David Terence Lloyd. *Ysgrifenedig*—Safon III : Ann Jonathan. Safon IV : *Hilary Jonathan.

CRIBYN. *Llafar*—Safon I : Margaret Jones, Gloria Davies, Kathleen Evans, Nance Davies, Lewis Meuryn Thomas, Stanley Meredydd Thomas, Evan Wyn Davies, Gwyn Lloyd Jones, Jane Davies.

HEN DY CWRDD (Aberdâr). *Llafar*—Safon I : Herbert Amlyn Davies. *Ysgrifenedig*—Safon II : Hywel Davies.

LLWYN. *Llafar*—Safon I : Marianne Davies, Brian Evans, Alun Evans, Jane Esther Jones, Maureen Evans, Richard Jones, Madlen Jones, Hefin Parry Jones, Elfryn Jones, John Hywel Thomas. Safon II : Ann Jones, David Jones, Maureen Avery.

*A ddynoda'r rhai a wobrwyir.

Arholwyr : Mr. D. LLOYD LEWIS, B.A.
Mr. W. D. JONES, B.A.

"DIWINYDDIAETH YNG NGHYMRU HEDDIW".—Yn ddiweddar traddododd y Parch. R. Ifor Parry, M.A., gweinidog yr Annibynnwyr yn Siloa, Aberdâr gyfres o dair o sgyrsiau radio ar y testun uchod. Llwyddodd y Golygydd eu sicrhau ar gyfer YR YMOFYNNYDD ac fe'u cyhoeddir i gyd yn Rhifyn Mai. Y mae cyhoeddi'r darlithiau yma yn ddigwyddiad o bwys canys ni chyhoeddwyd dim tebyg ar hanes diwinyddiaeth ers deg mlynedd ar hugain yng Nghymru. Disgwylir y bydd galw mawr am y rhifyn yn y Colegau Diwinyddol, ac ymhlith gweinidogion o bob enwad. Ni chyhoeddir ail-argraffiad *a rhaid i'r archebion i fod yn llaw'r Golygydd, 2, Tudor Terrace, Aberdar erbyn y 6 o Fai,* 1954. Nid oes raid pwysleisio fod i'r Parch. Ifor Parry safle arbennig ym myd ysgolheictod a hanes Diwinyddiaeth. Ef a enillodd y brif wobr yn Eisteddfod Genedlaethol Penybont am draethawd ar "Karl Barth" a rhoddwyd Medal Aur yr Eisteddfod iddo am yr un gwaith yn ddiweddarach. Y mae'r gwaith presennol o'r un safon uchel a disgwylir cefnogaeth frwd pob darllenwr i'r antur a gobeithiwn weled archebion ychwanegol yn llifo i mewn o bob cyfeiriad.

J. D. Lewis a'i Feibion Cyf., Argraffwyr, &c., Gwasg Gomer, Llandysul.